# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# DYDD IAU 25AIN MAI 2023

**PRESENNOL:** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| J.M. Charles | M. Donoghue | J.K. Howell | A.C. Jones |
| M.J.A. Lewis | B.D.J. Phillips | E. Skinner | G.B. Thomas |
| M. Thomas | D.E. Williams | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | N. Evans | J.P. Jenkins | R. Sparks |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Ysgrifennydd Cofnodion]

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Ysgrifennydd Cofnodion - Eitem Agenda 5]
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 1.50 yp**

**[Sylwer** - Am 10:10 yb cafwyd toriad i geisio cyngor cyfreithiol a bu i'r Pwyllgor ailymgynnull am 10:35 yb.
Am 11:40 yb cafodd y Pwyllgor egwyl o 10 munud, cyn ailgynnull am 11:50 yb.
Am 12:50 yp tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, T. Davies a D. Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd / Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd J.K. Howell | 3: PL/04739 – Codi preswylfa menter wledig a gwaith cysylltiedig yn Nhreale, Felindre, Llandysul, SA44 5XU | Wedi cefnogi'r ymgeiswyr / cais yn ysgrifenedig. |
| Y Cynghorydd R. Sparks | 3: PL/05366 – Cyfnewid carafán a llawr estyll cyfreithlon am breswylfa â garej yn rhan ohoni (Ailgyflwyno yn dilyn gwrthod PL/04327) yn The Caravan, Springwells Farm, Llanboidy, Hendy-gwynar Daf, SA34 0EB | Roedd yn adnabod yr ymgeiswyr. |

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/03849** | **Amrywio Amod 3 o W/35339 (codi giatiau), Cartref Cynnes, Peniel, Caerfyrddin, SA32 7HT** |

**3.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i'w wrthod am y rhesymau gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **PL/04739** | **Codi preswylfa menter wledig a gwaith cysylltiedig yn Nhreale, Felindre, Llandysul, SA44 5XU**<br><br>[Sylwer - Roedd y Cynghorydd J.K. Howell wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried].<br><br>Roedd y Pwyllgor o'r farn:<br><br>a) Bod Cyfiawnhad Menter Wledig ar gyfer y breswylfa, ar sail maint cyffredinol erwau'r fferm a graddfa bresennol gwaith y fferm, a bod maint y breswylfa'n dderbyniol.<br>b) Bod y cais yn unol â darpariaethau Nodyn Cyngor Technegol 6 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â pharhad y cenedlaethau o ran ffermio.<br>c) Bod modd clymu'r breswylfa bresennol ac arfaethedig i'r |

| | |
|---|---|
| | daliad amaethyddol drwy gytundeb adran 106.<br><br>**3.2.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i wrthod.**<br>**3.2.3 Bod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ynghylch amodau priodol i'w gosod a thrafodaethau gyda'r ymgeisydd mewn perthynas ag unrhyw gytundebau A106.** |

**3.3 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:**

| | |
|---|---|
| **PL/05366** | **Cyfnewid carafán a llawr estyll cyfreithlon am breswylfa â garej yn rhan ohoni (Ailgyflwyno yn dilyn gwrthod PL/04327) yn The Caravan, Springwells Farm, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0EB**<br><br>[Sylwer - Datganodd y Cynghorydd R. Sparks fuddiant wrth i'r swyddog gyflwyno'r cais hwn, a gadawodd y cyfarfod yn syth. Nid oedd yn bresennol wrth i'r Pwyllgor ystyried y cais]. |

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 27AIN EBRILL, 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 27 Ebrill, 2023 gan eu bod yn gywir.**

## 5. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 4

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio, ar gyfer Chwarter 4 am y cyfnod 1 Ionawr 2022 hyd at 31 Mawrth 2023, ac, yn arbennig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data cymharol ar gyfer 2022/23.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn nodi set helaeth o ddangosyddion monitro perfformiad craidd a fyddai'n rhan o fonitro perfformiad y gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol.

Prif ddangosyddion perfformiad yr adroddiad, yr adroddwyd yn ei gylch yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru, oedd Dangosyddion 2 a 10 ynghyd â chyfres o ddangosyddion lleol.

Wrth grynhoi perfformiad, nododd yr aelodau, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23, y rhagorid am y tro cyntaf ar y targed perfformiad cynllunio blynyddol ar gyfer Dangosydd 2 (Llywodraeth Cymru PAM/018), wrth i benderfyniad gael ei wneud ynghylch 89% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y dyddiad targed. Roedd y dangosyddion perfformiad lleol yn dangos gwelliant parhaus, gan gynnal a datblygu ar y cynnydd mewn perfformiad ers 2021/22. Ar ben hynny, roedd yr

adroddiad yn nodi, o ran dangosydd perfformiad 14, gorfodaeth, yn Chwarter 4 roeddid wedi ymchwilio i 80% o'r achosion o fewn y dyddiad targed o 84 diwrnod gan gyrraedd y targed o 80% am y tro cyntaf.

Estynnwyd diolch i'r Swyddogion am gyflawni gwelliannau cadarnhaol mewn perfformiad. Cyfeiriwyd at Dangosydd 11, apeliadau a benderfynwyd yn erbyn argymhelliad swyddogion. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, eglurodd y Rheolwr Blaen-gynllunio nad oedd ffigyrau ar gael oherwydd nad oedd unrhyw apeliadau wedi cael eu clywed a oedd yn ymwneud â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio. Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd yr achosion hynny lle roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad y swyddog yn cael eu cynnwys gan na fyddai'r penderfyniadau hynny'n arwain at apêl bosibl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

| ______________________ | ________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |